14–16 oed

# Cemeg feintiol

## Datrys diffiniadau

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/439IYXj, taflen i fyfyrwyr a nodiadau i athrawon ar gael hefyd

# Diffiniadau wedi'u datrys

Mae **adweithydd cyfyngol** yn cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol, sydd felly'n cyfyngu ar faint o gynhyrchion y gellir eu ffurfio.

Nid yw **gormodedd adweithydd** yn cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol oherwydd bod adweithydd arall wedi rhedeg allan yn gyntaf.

**Economi atomau** yw màs y cynnyrch a geisir fel canran o gyfanswm màs yr adweithyddion, mewn hafaliad symbolau cytbwys.

**Cyfansoddiad canrannol** yw màs cymharol atom(au) un elfen mewn cyfansoddyn, a roddir fel canran o'r màs fformiwla cymharol.

**Môl (mol)** yw uned swm y sylwedd, pan mai un môl yw'r swm sy'n cynnwys $6.02 \times 10^{23}$ (rhif Avogadro) atom, moleciwl neu uned fformiwla.

**Rhif Avogadro** yw'r rhif $6.02 \times 10^{23}$, sef nifer yr atomau, moleciwlau neu unedau fformiwla mewn un môl o'r sylwedd.

**Diweddbwynt** mewn titradiad yw'r union gyfaint a ychwanegwyd pan fydd y dangosydd yn newid lliw.

**Titr** yw cyfaint yr hydoddiant a ychwanegir o'r fwred sydd ei angen i gyrraedd y diweddbwynt.

# Cwblhau'r cysylltiad

Mewn titradiad, mae adwaith niwtralu yn digwydd, a phennir y diweddbwynt __________________ dangosydd yn newid lliw. Mae'r titr yn caniatáu i ni gyfrifo nifer y molau o'r cemegyn yn y fwred sydd __________________ yn ein galluogi i gyfrifo nifer y molau yn yr hydoddiant sydd â chrynodiad anhysbys. __________________, os eir dros y diweddbwynt, bydd gormodedd adweithydd ar ôl a bydd darlleniad y titr yn anghywir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A** | er gwaethaf | felly | hefyd |
| **B** | drwy | hefyd | yna |
| **C** | gan | at hynny | er hyn |
| **D** | o ganlyniad i'r | o'r herwydd | fodd bynnag |

# Brawddegau wedi'u cwblhau

Mewn titradiad, mae adwaith niwtralu yn digwydd, a phennir y diweddbwynt **o ganlyniad i'r** dangosydd yn newid lliw. Mae'r titr yn caniatáu i ni gyfrifo nifer y molau o'r cemegyn yn y fwred sydd **o'r herwydd** yn ein galluogi i gyfrifo nifer y molau yn yr hydoddiant sydd â chrynodiad anhysbys. **Fodd bynnag**, os eir dros y diweddbwynt, bydd gormodedd adweithydd ar ôl a bydd darlleniad y titr yn anghywir.